

Y Bil Ysgolion

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Tachwedd 2022

Crynodeb gweithredol

Mae'r Bil Ysgolion yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoleiddio Academiau yn Lloegr; ynghylch ariannu ysgolion ac addysg leol; ynghylch presenoldeb plant yn yr ysgol; ynghylch rheoleiddio sefydliadau addysgol annibynnol; ynghylch camymddwyn athrawon; ac at ddibenion cysylltiedig. Cafodd ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer paragraff 1 o atodlen 2 i'r Bil fel y'i diwygiwyd. Mae'r paragraff hwn yn diwygio adran 494 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n gymwys i Gymru a Lloegr, ac yn darparu ar gyfer galluogi awdurdodau lleol i gael eu digolledu am symiau ariannol mewn achosion lle mae disgybl wedi'i wahardd o ysgol mewn un ardal awdurdod lleol, ac wedyn yn cael addysg mewn ardal awdurdod lleol arall (gan gynnwys pan fydd y disgybl yn croesi'r ffin rhwng awdurdodau lleol Cymru a Lloegr).

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth a fewnosodir ym mharagraff 1 o atodlen 2 i'r Bil Ysgolion (fel y'i diwygiwyd) gan welliant 96.

Rydym hefyd yn argymhell bod y Senedd yn cytuno i gynnwys gwelliant 96 ym mharagraff 1 o atodlen 2 i'r Bil. Nid yw Sioned Williams AS yn cytuno â'r argymhelliad hwn



1. Y cefndir

Y Bil Ysgolion

1. Cyflwynwyd y Bil Ysgolion ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022, ac fe'i noddir gan yr Adran Addysg. Mae teitl hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

*"Make provision for the regulation of Academies; about school and local education funding; about the attendance of children at school; about the regulation of independent educational institutions; about teacher misconduct; and for connected purposes."*¹

2. Cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf wrth ei gyflwyno ar 11 Mai 2022. Ers hynny, mae wedi cael ei ail ddarlleniad ac mae wedi symud ymlaen drwy gyfnodau Pwyllgor ac Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, nid yw dyddiad y trydydd darlleniad wedi'i gyhoeddi.

3. Ar 30 Mai 2022 cyflwynwyd diwygiad (diwygiad 96) yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Cafodd y diwygiad ei gytuno ar 20 Mehefin a chafodd ei ymgorffori ym mharagraff 1 o atodlen 2 i'r Bil, fel y'i diwygiwyd. Mae'r diwygiad hwn yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29.

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

4. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar 7 Gorffennaf 2022 o dan Reol Sefydlog 29.2.²

5. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o dan Reol Sefydlog 29.4, gyda dyddiad cau o 17 Tachwedd 2022 ar gyfer cyflwyno adroddiad. Ar 20 Medi 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 1 Rhagfyr 2022 fel dyddiad cau newydd ar gyfer cyflwyno adroddiad.

¹ Senedd y DU, '[Schools Bill \[HL\] \[as amended on report\]](#)', 18 Gorffennaf 2022

² Llywodraeth Cymru, '[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ysgolion](#)', 7 Gorffennaf 2022

Ein gwaith craffu

6. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod Pwyllgor ar 21 Medi 2022. Wedi hynny ysgrifennwyd at Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 3 Hydref³ i ofyn am ragor o wybodaeth. Ymatebodd y Gweinidog ar 10 Tachwedd.⁴ Ystyriwyd ei ymateb ar 17 Tachwedd, a chytunwyd ar yr adroddiad hwn (yn amodol ar rai newidiadau) ar 23 Tachwedd.

2. Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

Paragraff 1 o atodlen 2 i'r Bil⁵

Trosolwg o'r darpariaethau

7. Mae paragraff 1 o atodlen 2 i'r Bil yn mewnosod diwygiadau i adran 494 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n gymwys (fel y bydd y diwygiadau) yng Nghymru a Lloegr. Mae'r memorandwm yn nodi'r canlynol:

"Mae adran 494 yn darparu ar gyfer galluogi awdurdodau lleol i gael eu digolledu am symiau ariannol mewn achosion lle mae disgybl wedi'i wahardd o ysgol mewn un ardal awdurdod lleol, ac wedyn yn cael addysg mewn ardal awdurdod lleol arall (gan gynnwys pan fydd y disgybl yn croesi'r ffin rhwng awdurdodau lleol Cymru a Lloegr). Mae'r diwygiadau yn ehangu'r adran i gwmpasu academiâu."⁶

Barn Llywodraeth Cymru

8. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer y diwygiadau a wneir i baragraff 1 o atodlen 2 i'r Bil o dan ddiwygiad 96 oherwydd bod y diwygiad "yn gwneud

³ Senedd Cymru, 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg', 3 Hydref 2022

⁴ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 10 Tachwedd 2022

⁵ Noder: mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi'n anghywir bod diwygiad 96 yn mewnosod diwygiadau i baragraff 1 o atodlen 3, yn hytrach na pharagraff 1 o atodlen 2.

⁶ Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ysgolion', 7 Gorffennaf 2022, tudalen 4

darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig, ac at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (sef ariannu ysgolion Cymru)."⁷

- 9.** Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn egluro y bydd diwygiad 96 yn galluogi cyllid i ddilyn disgybl os bydd disgybl wedi cael ei wahardd o academi yn Lloegr ac yn symud i ysgol a gynhelir yng Nghymru, neu fel arall. Roedd y trefniadau hyn eisoes ar waith mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir yn Lloegr, ond nid oedd yn ymestyn i academïau (sy'n bodoli yn Lloegr yn unig).
- 10.** Mae Llywodraeth Cymru wedi argymhell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau hyn gael eu cynnwys o fewn y Bil Ysgolion.
- 11.** Mae'n dweud y byddai'n ofynnol i'r Senedd gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i ddeddfu'r darpariaethau hyn ei hun oherwydd y byddant yn rhoi/gosod swyddogaeth ar awdurdod cyhoeddus yn Lloegr (i dalu arian i awdurdod lleol yng Nghymru pan fo disgybl wedi'i wahardd o academi yn Lloegr ac yn cael addysg mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru).
- 12.** Aiff ymlaen i ddweud bod y darpariaethau'n "ganlyniadol", gyda "hyd a lled yr effaith yng Nghymru". Yng ngoleuni "natur gydgysylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr", mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn "briodol ac yn gymesur" gwneud y ddarpariaeth o fewn un o Filiau'r DU.⁸

Barn Llywodraeth y DU

- 13.** Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod gwelliant 96 (diwygio paragraff 1 o atodlen 2 i'r Bil) yn cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.⁹

Adran 52(2)

Trosolwg o'r darpariaethau

- 14.** Mae Cymal 52(2) o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i'r Ddeddf, sef yr hyn fydd y Bil ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol. Mae hyn yn cynnwys pŵer Harri VIII i ddiwygio Deddfau eraill at y diben hwn.

⁷ Llywodraeth Cymru, '[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ysgolion](#)', 7 Gorffennaf 2022, tudalen 4

⁸ Llywodraeth Cymru, '[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ysgolion](#)', 7 Gorffennaf 2022, tudalen 5

⁹ Llywodraeth Cymru, '[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ysgolion](#)', 7 Gorffennaf 2022, tudalen 4

15. Er mai'r pŵer yng nghymal 52(2) y Bil yw gwneud diwygiadau canlyniadol, gellid defnyddio'r pŵer hwn i ddiwygio cyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Nid oes dim yn y Bil fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru na chael ei chydsyniad cyn gwneud diwygiadau o'r fath.

16. Yn ein llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, gofynnwyd a oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon dros gymal 52(2).

17. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd inni fod y "ddarpariaeth wedi ei geirio mewn modd penodol iawn (o ganlyniad i'r Bil) ac na fydd, yn fy marn i, yn galluogi Gweinidogion Llywodraeth y DU i wneud unrhyw newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth ddatganoledig."¹⁰

Ein barn ni

18. Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU bod diwygiad 96 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth honno.

Conclusion 1. Mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth a fewnosodir ym mharagraff 1 o atodlen 2 i'r Bil Ysgolion (fel y'i diwygiwyd) gan welliant 96.

19. Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod y ddarpariaeth yn synhwyrol, yn annadleuol ac yn weinyddol. Rydym yn argymhell felly bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r ddarpariaeth a nodir yn niwygiad 96 i'w gynnwys yn y Bil Ysgolion. Mynegodd Sioned Williams bryderon ynghylch yr egwyddor bod deddfwriaeth a fydd yn gymwys yng Nghymru yn cael ei deddfu drwy Fil Llywodraeth y DU yn hytrach na Bil Llywodraeth Cymru. Am y rheswm hwn, nid yw'n cytuno â'r argymhelliad hwn.

Recommendation 1. Dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r ddarpariaeth a fewnosodir ym mharagraff 1 o atodlen 2 i'r Bil Ysgolion (fel y'i diwygiwyd) gan ddiwygiad 96 i'w gynnwys yn y Bil Ysgolion. Nid yw Sioned Williams yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

20. Rydym yn fodlon gyda sicrwydd Llywodraeth Cymru na fydd y darpariaethau yng nghymal 52(2) yn galluogi Gweinidogion Llywodraeth y DU i wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r deddfwriaeth ddatganoledig.

¹⁰ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad', 10 Tachwedd 2022
